# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.49** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_700000_15_07_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

1.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf.

1.2 Cytunodd yr aelodau i gynnal darn ehangach o waith ar drefniadau llywodraethu byrddau iechyd ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyllid iechyd a dangosyddion allweddol ar berfformiad gwasanaeth.

TRAWSGRIFIAD

**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**

**2.2 Datganodd Jenny Rathbone fuddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, datganodd Alun Ffred Jones fuddiant fel aelod o Gyngor Prifysgol Bangor, a datganodd Sandy Mewies fuddiant fel Cymrawd Prifysgol Glyndŵr.**

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Nodwyd y papurau.**

- **Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn awgrymu bod y Pwyllgor yn monitro nifer o faterion a godwyd gan yr Aelodau ar gyllid addysg uwch. Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i baratoi nodyn briffio ar ddileu dyledion sy'n gysylltiedig â llyfr benthyciadau.**
- **Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Argymhelliad 5 o strategaeth leoli Llywodraeth Cymru yn dilyn yr adolygiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ddiweddarach eleni.**

3.1 Cyllid Addysg Uwch

3.2 Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol (23 Mehefin 2014)

3.3 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Llythyr gan Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (8 Gorffennaf 2014)

3.4 Swyddfa Archwilio Cymru: Y Diweddaraf am Raglen Waith Gwerth am Arian yr Archwilydd Cyffredinol (9 Gorffennaf 2014)

## 4 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

4.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ateb y Gweinidog ar **Argymhellion 1, 3 a 13. Bydd y Pwyllgor yn trafod y mater eto yn 2015 ar ôl cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru.**

## 5 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Ystyried gohebiaeth

5.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i drafod y mater eto yn ystod gwanwyn 2015 pan fydd adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar reoli grantiau ar gyfer 2014/15 ar gael.

5.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am ragor o wybodaeth am werth grantiau yr effeithir arnynt yn dilyn achosion o ddiffyg cydymffurfio ar ôl yr archwiliadau dirybudd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: Papur briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybodaeth lafar i Aelodau am ei adroddiad a gyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf.

7.2 Cytunodd Aelodau i ofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru ac i drafod y mater eto yn yr hydref.

7.3 Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y **Pwyllgor Menter a Busnes yn gofyn a fydd yn gwneud unrhyw waith pellach ar y mater hwn.**

## 8 Y Fenter Dwyll Genedlaethol 2012-13: Papur briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybodaeth lafar i Aelodau am ei adroddiad a gyhoeddwyd ar 12 Mehefin.

8.2 Gwnaeth Aelodau nodi a chroesawu'r adroddiad a chytunodd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i'w hannog i gymryd rhan yn y Fenter Dwyll Genedlaethol.

8.3 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Argymhelliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor ar Reoli Grantiau ynghylch achosion o dorri'r Cod Ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector, a'u hatgoffa y dylai manylion o unrhyw achosion o'r fath gael eu cynnwys yn yr adroddiad rheoli grantiau blynyddol.

## 9 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Cytuno ar yr adroddiad terfynol

9.1 Gwnaeth yr Aelodau ystyried a derbyn yr adroddiad.

## 10 Adroddiad Blynyddol 2013/14: Cytuno ar yr adroddiad terfynol

10.1 Gwnaeth yr Aelodau ystyried a derbyn yr adroddiad.

## 11 Blaenraglen waith: Hydref 2014

11.1 Nododd yr Aelodau y rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref 2014.